




YSGOLION CHWARAE-GYFEILLGAR

- Cynnwys Polisi Chwarae yn yr Ysgol
- Cynyddu Hyfforddiant Chwarae i Staff Ysgol
- Galluogi'r Gymuned i Ddefnyddio Tiroedd Ysgol yn Fwy ar gyfer Chwarae
- Cyflwyno Hyrwyddwyr Chwarae
- Cynnig Gweithdai Chwarae i Rieni/Gofalwyr



@valeplayteam



GWYBODAETH AM DÎM DATBLYGU CHWARAE'R FRO

Ein rôl ni yw sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i chwarae ledled y Fro.


Mae Tîm Datblygu Chwarae'r Fro yn gweithio mewn gwahanol leoliadau ledled y Fro, gan ddatblygu a chynnig cyfleoedd i blant chwarae. Rydym yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol gan gynnwys staff chwarae, staff ysgol a grwpiau cymunedol.

Rydym yn dîm deinamig a brwdfrydig sydd bellach â'r cyfle i dyfu a datblygu ein hethos chwarae mewn ysgolion.

Mae gennym gyfoeth o hyfforddiant a phrofiad yn y sector gwaith chwarae, a hoffem rannu ein harbenigedd gydag ysgolion lleol. Rydym yn chwilio am ysgolion sy'n frwd dros chwarae ac sydd wedi ymrwymo i gynyddu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r gymuned ehangach.



www.valeofglamorgan.gov.uk/play
playfriendly@valeofglamorgan.gov.uk



@valeplayteam



BETH YW CHWARAE?

Mae chwarae yn un o'r agweddau pwysicaf ar fywydau plant – maent yn gwerthfawrogi'r amser, y lle a'r rhyddid i chwarae. Mae chwarae'n cynnwys plant yn gwneud fel y dymunant yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Mae ganddo nodweddion allweddol hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a diffyg cynhyrchiant.



PAM MAE CHWARAE'N BWYSIG?

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac mae wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Trwy chwarae, mae plant yn datblygu gwydnwch a hyblygrwydd, sy'n cyfrannu at les corfforol ac emosiynol. I blant eu hunain, mae chwarae yn un o'r agweddau pwysicaf ar eu bywydau.

"Yr hawl i chwarae yw hawliad cyntaf plentyn ar y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur am oes. Ni all unrhyw gymuned dorri'r hawl honno heb wneud niwed dwfn a pharhaus i feddyliau a chyrrff ei dinasyddion." (David Lloyd George, 1925)

DOD YN YSGOL CHWARAE-GYFEILLGAR

CYNNWYS POLISIŌIAU CHWARAE YN YR YSGOL



Mae Chwarae Cymru yn argymhell bod ysgolion sy'n dymuno creu amgylchedd chwarae cyfoethog i blant yn mabwysiadu polisi chwarae. Mae polisi chwarae ysgol yn nodi'r gwerth y mae'r ysgol yn ei roi ar chwarae plant ac yn dangos bod yr ysgol yn ymrwymo i gefnogi cyfleoedd chwarae i blant.

Mae Chwarae Cymru wedi llunio polisi chwarae ysgol enghreifftiol y gellir ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd neu ei addasu i gyd-fynd ag anghenion yr ysgol.

CYNYDDU HYFFORDDIANT CHWARAE I STAFF YSGOL

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae yn eich ysgol. Mae Tîm Chwarae'r Fro yn gweithio ochr yn ochr ag Addysgu Oedolion Cymru i gyflwyno hyfforddiant gwaith chwarae achrededig. Gallwn gynnig y cyfleoedd hyfforddi canlynol i'ch staff, gan gynnwys athrawon, cynorthwyr cymorth dysgu, gofalwyr, goruchwylwyr amser cinio, gwirfoddolwyr:

- Cyflwyniad i Waith Chwarae (Lefel Un)
- Gwobr Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae (L2APP)
- Gwobr mewn Pontio i Waith Chwarae (Lefel 3)
- Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau (MAHPS Lefel 3)
- Gwaith chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3 - Diploma Gwaith Chwarae Lefel 3)



GALLUOGI'R GYMUNED I DDEFNYDDIO TIROEDD YSGOL YN FWY AR GYFER CHWARAE

Ledled Cymru, mae llawer o diroedd ysgol yn cynnig adnodd sylweddol ar gyfer chwarae plant. Mae tiroedd ysgol yn aml yn cynrychioli'r unig ardal o le agored lle gall plant chwarae yn eu cymuned leol.



Yn yr un modd, mae rhai ysgolion yn cynnig yr unig arwyneb gwastad yn lleol lle mae plant yn dysgu sut i feicio ac yn chwarae gyda'u sgwteri a'u byrddau sgrialu. Drwy ddod yn Ysgol chwarae-gyfeillgar, byddwch yn ymrwymo i agor tiroedd eich ysgol, y tu allan i oriau ysgol, at ddibenion chwarae cymunedol.

CYFLWYNO HYRWYDDWYR CHWARAE MEWN YSGOLION



Bydd Hyrwyddwyr Chwarae yn cefnogi chwarae ym mhob rhan o'ch ysgol, nhw fydd y prif gyswllt ar gyfer pob peth sy'n ymwneud â chwarae! Gall Hyrwyddwyr Chwarae fod yn oedolion ac yn blant yn eich ysgol sy'n frwd dros chwarae!

GWEITHDAI CHWARAE I RIENI/GOFALWYR

Mae rhieni a gofalwyr yn bwysig o ran cefnogi chwarae i blant - ni waeth pa mor hen ydynt. Gall hwyluso gweithdai chwarae helpu rhieni a gofalwyr i roi amser, lle a chefnogaeth i blant chwarae gartref ac yn eu cymuned leol.



@valeplayteam

DECHREUWCH EICH TAITH CHWARAE-GYFEILLGAR HEDDIW



I gofrestru, neu i gael mwy o wybodaeth am
daith chwarae-gyfeillgar eich ysgol, cysylltwch
â Thîm Datblygu Chwarae'r Fro:
playfriendly@valeofglamorgan.gov.uk



Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon hefyd i'w gweld ar wefan
Chwarae Cymru. Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol ar
gyfer chwarae plant. Ymgyrchu dros Gymru: gwlad lle mae
cyfleoedd i chwarae a hyrwyddo hawl pob plentyn i chwarae.
Ewch i: chwaraecymru.org.uk/cym/cartref



@valeplayteam